

Coetiroedd Glastir

Bwletin 5 - Mawrth 2018

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu cynlluniau coetiroedd Glastir dan y Rhaglen Datblygu Gwledig i Gymru 2014-2020. Mae'r bwletin hwn yn rhoi adolygiad o gynlluniau Creu Coetiroedd Glastir a Chynllunio Coetiroedd Glastir yn 2017, diweddariad ar y rowndiau Coetiroedd Glastir a gyhoeddwyd yn 2018, crynodeb o ganllawiau a ddiweddarwyd a throsolwg o faterion eraill a godwyd gan gynllunwyr coetir cofrestredig a rhanddeiliaid.



Cyngor Cyffredinol

Ceisiadau am Randdirymiad

Os na all ymgeisydd gwblhau gwaith cyfalaf erbyn 31^{ain} Mawrth 2018, gellir gwneud cais am randdirymiad er mwyn ymestyn y dyddiad cau. Gellir ystyried rhanddirymiaid ar gyfer contractau Adfer Coetiroedd Glastir a gyhoeddwyd dan y 5^{ed} rownd neu gontractau Creu Coetiroedd Glastir a gyhoeddwyd dan y 4^{ydd} rownd.

I wneud cais am randdirymiad, gwnewch yn siŵr bod y contract wedi'i dderbyn, os gwelwch yn dda, a bod y gwaith cyfalaf wedi dechrau cyn 31^{ain} Mawrth 2018. Mae angen i'r cais gynnwys tystiolaeth ffotograffig o'r gwaith a gwblhawyd hyd y dyddiad hwnnw ynghyd â chopïau o anfonebau a dalwyd am ddefnyddiau. Er enghraifft, archebion am blanhigion, ffensys a defnyddiau plannu. Dylid anfon y cais am randdirymiad a'r dystiolaeth ategol drwy'r cyfrif RPW Ar-lein perthnasol.

Os cymeradwyir y rhanddirymiad, gellir caniatáu estyniad i gwblhau'r gwaith erbyn 15^{fed} Mai 2018 ac i gyflwyno ceisiadau erbyn 15^{fed} Mehefin 2018. Cysylltwch â Thaliadau Gwledig Cymru ar 0300 062 5004 i gael rhagor o wybodaeth, os gwelwch yn dda.

Telerau ac Amodau ar gyfer Cynllunwyr Coetir Cofrestredig

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i sicrhau bod safon proffesiynoldeb yn cael ei chynnal gan goedwigwyr cofrestredig.

O dan delerau ac amodau Glastir ar gyfer cynllunwyr rheoli cofrestredig, gellir rhoi rhybuddion a chosbau os yw ymddygiad cynllunydd coetir cofrestredig yn is na'r safon a nodir yng [Nghod Ymddygiad ICF](#) a [rheolau'r cynllun Glastir](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu atoch chi a'ch corff proffesiynol ynghlŷn â diweddariad drafft i'r telerau a'r amodau.

Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a allai warantu rhybudd yn cynnwys:

- Ysgrifennu cynlluniau Glastir sydd heb fod yn cydymffurfio â rheolau Glastir a'r canllawiau cysylltiedig.

- Peidio cadw at gyngor CNC ar gyfer cynlluniau coetiroedd Glastir.
- Peidio dilyn cyngor yr ymgynghorion statudol.

Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a allai gyfiawnhau cosb yn cynnwys:

- Darparu datganiad neu wybodaeth ffug
- Heggwr gwybodaeth bwysig
- Wedi derbyn tri rhybudd neu ragor
- Methu sicrhau aelodaeth siartredig lawn eich corff proffesiynol yn yr amserlen a roddir.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [Telerau ac Amodau](#) Glastir wedi'u diweddarau ar gyfer cynllunwyr cofrestredig Glastir sydd i'w cael yn adran Glastir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Digwyddiadau hyfforddi i gynllunwyr cofrestredig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi partneru â Chyswllt Ffermio a Choedwigaeth a'r ICF er mwyn cynnal dau ddigwyddiad hyfforddi. Bydd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar gynllunio coedwigaeth Hirdymor a phroffesiynoldeb ac fe'u cynhelir ar:

- Dydd Mawrth 24^{ain} Ebrill Canolfan Ymwelwyr Garwnant
- Dydd Mercher 25^{ain} Ebrill Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i drefnu'r digwyddiadau hyn a disgwylir i holl gynllunwyr coetir cofrestredig Glastir fynychu fel rhan o'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Bydd y digwyddiadau'n cynnwys sesiwn gaeedig, un awr o hyd, i gynllunwyr Glastir ar y ddau ddiwrnod o 3yp. Sylwer, os gwelwch yn dda, bod y digwyddiadau yn rhad ac am ddim, ond mae angen i chi gofrestru gyda'r ICF er mwyn gallu mynychu un o'r digwyddiadau. Gallwch wneud hyn ar [dudalen digwyddiadau](#) ICF.

At hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu dau ddiwrnod hyfforddi ar safle ar gynefinoedd â blaenoriaeth ac i gefnogi asesiadau PAWS. Cynhelir y digwyddiadau hyn ym mis Mai a mis Mehefin a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu mwy o wybodaeth maes o law.

Manylion cyswllt

Am ymholiadau sy'n ymwneud â datgan diddordeb, dewis a sgorio, gwybodaeth am gontract neu dalu mewn perthynas â Glastir, cysylltwch â Llywodraeth Cymru, os gwelwch yn dda trwy [gyfrif ar-lein RPW](#) neu 0330 062 5004

Am ymholiadau sy'n ymwneud â chynllun Coetiroedd Glastir, ymgynghoriadau a chynghor neu broses wirio Glastir, cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru trwy gyfrwng [e-bost](#) neu ffoniwch 03000 65 3000.

Creu Coetiroedd Glastir

Ffenestri Datgan Diddordeb

Bydd datganiadau diddordeb ar gyfer y 6^{ed} rownd o Greu Coetiroedd Glastir yn rhedeg o 26^{ain} Chwefror a hyd 6^{ed} Ebrill 2018. Mae hyn ar gyfer cwblhau gwaith cyfalaf erbyn 31^{ain} Mawrth 2019 a'u hawlio erbyn 30^{ain} Ebrill 2019. Gall cwsmeriaid ailymgeisio yn y ffenestr hon os cafodd eu datganiad diddordeb ei wrthod ym 5^{ed} rownd Creu Coetiroedd Glastir.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trosolwg o'r cynllun

	Rownd 3	Rownd 4
Ardal creu coetir wedi'i gwirio (Ha)	363.1ha	282.7ha
Maint cyfartalog (Ha)	7.7ha	5.6ha
Conifferau wedi'u plannu	167.7ha	102.5ha
Coed llydanddail wedi'u plannu	195.3ha	180.2ha
Nifer y coed a blannwyd	816,058	613,000

Diweddariad i'r canllaw

Fel rhan o'r gwelliannau parhaus i'r broses, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diweddaru nifer o nodiadau cyfarwyddyd Glastir. Bydd y rhain ar gael ar [wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#) ym mis Mawrth 2018.

- Mae'r canllawiau **Creu Coetiroedd Glastir** diweddarafr yn amlinellu sut i nodi unrhyw sensitifrwydd a ddangosir mewn ardal arfaethedig a sut i nodi pa effaith y mae hyn yn debygol o'i gael. Mae'r canllawiau yn disgrifio'r camau y bydd angen i gynllunwyr coetir cofrestredig eu cymryd er mwyn cynnwys y sensitifrwydd hwn mewn cynllun.
- Cefnogir y canllaw diweddaredig hwn gan **enghreifftiau** mewn perthynas â'r **cynllun Creu Coetiroedd Glastir** newydd. Mae hyn yn cynnwys dau achos damcaniaethol sy'n nodi arferion da ar gyfer cynlluniau creu coetiroedd ar raddfa fach ac ar raddfa fawr.
- Arweiniad ychwanegol ar **gynefinoedd â blaenoriaeth ac ardaloedd mawn dwfn**
- [Cyfarwyddyd gweithredu wedi'i ddiweddaru ar Ddalgylchoedd Sensitif i Asid](#). Mae Adran 5 yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau creu coetiroedd mewn Dalgylchoedd Sensitif i Asid sy'n methu neu sydd mewn perygl.

Ymgysylltiad Rhanddeiliaid

Gall mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at ymgysylltu lleol, yn gynnar yn y broses o gynllunio creu coetiroedd, hyrwyddo dealltwriaeth o'r weledigaeth ar gyfer coetir newydd. Gall hyn arwain at lefelau uwch o ddiddordeb, cefnogaeth weithredol a help i leihau'r tebygrwydd o adweithiau negyddol i'ch cynlluniau.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y lefel briodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei wneud ac, er mwyn helpu, mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud nifer o newidiadau i'r [rheolau Creu Coetiroedd Glastir](#) a'r [canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer Creu Coetiroedd Glastir](#).

- Mae ar bob cynllun angen ymateb gan unigolion y bydd eu heiddo o bosib yn cael ei effeithio, yn enwedig eiddo sy'n ffinio â phlannu newydd.
- Os yw cais creu coetir yn fwy na throthwy'r EIA, dylech hysbysu'r Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.
- Fel rhan o unrhyw ymgysylltiad cyhoeddus neu ymgysylltiad cymdogaeth, rhaid i'ch cynllun Creu Coetir Glastir dynnu sylw at bryd y gwnaethoch chi ymgynghori â rhanddeiliaid, sut yr ymgynghorwyd â nhw, am ba hyd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad a phwy a ymatebodd.
- Argymhellir digwyddiad cyhoeddus ar gyfer cynlluniau creu coetiroedd mwy, yn enwedig cynlluniau sy'n agos at gymuned.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am wybodaeth bellach yn ystod y broses wirio, felly mae'n bwysig eich bod yn cadw cofnod o unrhyw drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda rhanddeiliaid, manylion yr hysbysladau a ddarperir gennych a'r ymatebion y byddwch yn eu derbyn.

Dylunio Tirwedd

Dylai cynlluniau Coetiroedd Glastir gynnwys Cynllun Dylunio Tirwedd os yw cynllun creu coetir yn weladwy neu'n bwysig yn y dirwedd (*UKFS Good Forest Practice 1-4*).

Dylai'r cynllun dylunio gynnwys dadansoddiad o gymeriad tirwedd er mwyn sicrhau ei fod yn ymwneud â chymeriad y dirwedd o'i amgylch. Ymhlith y ffactorau eraill i'w hystyried mae sensitifrwydd gweledol, cyd-destun hanesyddol, tirweddau a gynlluniwyd ac egwyddorion dylunio tirwedd gan gynnwys graddfa, siâp a thirffurf. Dylai'r dyluniad terfynol hefyd fynd i'r afael â siâp allanol cynllun creu coetir newydd yng nghyd-destun lleoliad y dirwedd; dyluniad yr uned rhywogaethau a dyluniad siapiau mewnol.

Dylech gyfeirio at [Dechnegau Dylunio ar gyfer Cynllunio Rheoli Coedwigoedd](#) a [Cynllunio Rheoli Coedwig UKFS](#) os gwelwch yn dda i gael rhagor o wybodaeth.

Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Mae Ardal Tirwedd Arbennig yn ddynodiad gan Awdurdod Lleol er mwyn categorioedd tirwedd sensitif. Os yw cais creu coetir dros bum hectar, dylech anfon e-bost at [Tîm Glastir](#) yn Cyfoeth Naturiol Cymru i ganfod a yw'r cais creu coetir mewn Ardal Tirwedd Arbennig. Efallai y bydd angen i chi hefyd ofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol ar yr Ardal Dirwedd Arbennig.

Map Cyfleoedd Coetir Lle

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno sawl diweddariad i'r map Cyfleoedd Coetir er mwyn gwneud y map yn haws i'w ddefnyddio gan amrywiaeth o wahanol grwpiau

defnyddwyr. Rydym hefyd wedi cynnwys tystiolaeth fwy diweddar ac wedi ymgorffori bysell lawr lwytho ar gyfer y Cyfnod Daearol.

1 Arolwg Cynefinoedd ac wedi tynnu nifer o haenau cyfyngiadau er mwyn sicrhau bod gan ardaloedd mwy o Gymru addasrwydd uwch ar gyfer coetiroedd. Mae rhai o'r newidiadau yn cynnwys:

- Symud y tri Pharc Cenedlaethol a'r Ardal Tirwedd Hanesyddol o'r haen "sensitifrwydd" i'r haen "Arweiniad Arbennig". Mae hyn yn dangos bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ymddiriedolaethau Archeolegol lleol yn fodlon ystyried cynlluniau creu coetiroedd newydd. Fodd bynnag, mae'r un broses [ymgyngori](#) yn berthnasol os yw'r cynnig plannu newydd yn yr haen hon.
- Cyflwyno'r ailadrodd diweddaraf o'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol.
- Diwygio set ddata'r Wiwer Goch i gynnwys gwybodaeth gan fforwm Gwiwerod Cymru a phartneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru.
- Enwau'r set ddata ddiwygiedig i fod yn gyson â [chanllawiau diweddaedig Creu Coetiroedd Glastir](#).
- Gan gynnwys data Cylch 2 Cyrff Dŵr Sensitif i Asid 2016.
- Tynnu'r byffer 800m o gwmpas pob Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Cyflwyno bysell lawr lwytho ar gyfer [Arolwg Cynefinoedd Cam 1 Daearol](#)

Er bod y map cyfleoedd coetiroedd yn offeryn sy'n cynorthwyo penderfyniad i helpu nodi ardaloedd yng Nghymru sydd fwyaf addas ar gyfer creu coetiroedd, nid yw'n offeryn sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig bod cynllunwyr yn cynnal eu hasesiad safle eu hunain mewn perthynas â chynllun plannu newydd arfaethedig.

Barn am yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA)

Ar hyn o bryd, rhaid i bob cais dan y cynllun Creu Coetiroedd Glastir gael barn dan Reoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017. Mae'r farn hon yn asesu a oes angen caniatâd ar gyfer cynnig plannu newydd.

Fel rhan o welliannau pellach i'r broses, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diwygio rheolau Glastir fel nad yw cais plannu newydd dan Creu Coetiroedd Glastir yn cael ei ystyried yn gais EIA oni bai ei fod yn cyfateb i'r trothwyon a nodir yn y Rheoliadau. Bydd hyn yn golygu nad oes angen barn ar gynlluniau islaw trothwyon yr EIA. Bydd y newid hwn yn berthnasol o 6^{ed} rownd Creu Coetiroedd Glastir.

Sylwer y gall ymgeisydd wneud cais am farn EIA ar unrhyw adeg, hyd yn oed os yw'r ffenestr ar gyfer datgan diddordeb Creu Coetiroedd Glastir ar gau. Fodd bynnag, rhaid i ymgeisydd fod â **bwriad difrifol** o ymgymryd â'r plannu newydd. Gweler [yma](#) am ragor o wybodaeth.

Cod Carbon Coetir

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Coedwigaeth fersiwn wedi'i diweddarau o safon, canllawiau a dogfennaeth Cod Carbon Coetiroedd. Mae hyn yn symleiddio rhai agweddau, yn ymgorffori prosiectau bach ac yn darparu manylion ychwanegol ar ddilysu. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth bellach wedi cofrestru pob un o'r 21 o Gynigion Creu Coetiroedd Glastir "Carbon Brodorol" o'r tair rownd gyntaf. Gellir gweld y canllawiau diweddaraf a'r prosiectau cofrestredig ar [y gofrestrfa Cod Carbon Coetiroedd](#).

Mae Coed Cymru yn ymgymryd â rôl 'Rheolwr Grŵp' ar gyfer y prosiectau hyn o fis Ebrill 2018. Bydd Coed Cymru mewn cysylltiad â chynllunwyr yn fuan i drafod y camau nesaf. Gweler www.forestry.gov.uk/carboncode neu e-bostiwch [Vicky West](#) am ragor o fanylion.

Adfer Coetiroedd Glastir

Ffenestri Datgan Diddordeb

Bydd datganiadau diddordeb ar gyfer y 6^{ed} cylch o Adfer Coetiroedd Glastir yn rhedeg o 9^{ed} Ebrill tan 4^{ydd} Mai 2018. Mae hyn ar gyfer cwblhau gwaith cyfalaf erbyn 31^{ain} Mawrth 2019 a'u hawlio erbyn 30^{ain} Ebrill 2019.

Trosolwg o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS)

O dan y 5^{ed} rownd, dewiswyd 61 o gynlluniau, gan gynnwys 39 o achosion o fewn PAWS. Asesodd Llywodraeth Cymru yr holl achosion nad oeddent yn rhai PAWS a'r rhai PAWS oedd â Sgôr Potensial Ecolegol uchel (EPS) neu lle'r oedd yr ailstocio yn cynnwys 100% o goed llydanddail brodorol.

Cefnogodd Cyfoeth Naturiol Cymru Lywodraeth Cymru trwy asesu 117 hectar o gynlluniau Adfer Coetiroedd Glastir gydag ardaloedd PAWS a chanddynt EPS canolig ac isel. Roedd hyn yn cynnwys 19 achos ac yn cynnwys:

- Ardal lle plannwyd conifferau 82ha
- Ardal lle plannwyd coed llydanddail 35ha

Cynlluniau o fewn ardaloedd craidd y Wiwer Goch

Dylai cynllunwyr ddefnyddio gwefan [prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru](#) i ganfod a yw cynllun Adfer Coetir Glastir o fewn ardal graidd y Wiwer Goch. Os yw hyn yn wir, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell:

- Peidio plannu rhywogaethau coed llydanddail mawr hadog, megis coed derw, castan, ffawydd, sycamorwydd neu gyll lle nad yw'r rhain eisoes yn bresennol. Yn hytrach, dylid ystyried ailstocio gyda choed llydanddail hadog bychan (Bedw, Criafol, Helyg, Gwern, Aethnen).



Glastir



- Os yw'r ardal ailsefydlu yn gyfagos i gynefin gwiwerod coch sy'n bodoli eisoes, dylid cynnwys coed Pîn (Pinwydd yr Alban neu Pinwydd Camfrig) a sbriws Norwy gyda Sitca a chymysgedd o rywogaethau llydanddail hadog bychan.
- Yn Ynys Môn, y rhywogaeth a ffafrir ar gyfer ailstocio yw coed derw, ffawydd, castan pêr, cyll, pigwydd, criafol, a phinwydd (e.e. Pinwydd yr Alban, Pinwydd Camfrig, Pinwydd Arfor, Pinwydd Cneuog a Phinwydd y Mynydd).

Gweler y [Cynllun Cadwraeth ar gyfer Gwiwerod Coch yng Nghymru](#) am ragor o wybodaeth.

Astudiaeth Achos

Creu Coetiroedd yng Ngogledd Cymru

Erbyn diwedd Mawrth 2018, bydd tiffeddiannwr yng Ngogledd Cymru wedi cwblhau dros 48 hectar o blannu newydd ac wedi gosod dros 10 cilometr o ffensys atal stoc cysylltiol. Cyflawnwyd hyn trwy bedwar cais ar wahân dan Creu Coetiroedd Glastir.

Mae nod cyffredinol y pedwar cynllun wedi bod yn amlblyg ac mae'n cyd-fynd â chyd-nod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, sef creu a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn sicrhau amryfal fanteision.

Trwy ddefnyddio cymysgedd o goed llydanddail brodorol yn bennaf (cymysgedd Bioamrywiaeth Brodorol 801) mae'r cynlluniau, ar y cyd, yn ceisio:

- Darparu ffynhonnell gynaliadwy o bren.
- Creu coetiroedd ffyniannus, bioamrywiol a fydd yn ychwanegu at fioamrywiaeth leol sy'n bodoli eisoes



- Cefnogi gweithgareddau hamdden

Mae elfen fach o Goetir Cymysg Uwch (Cymysgedd Creu Coetiroedd Glastir 803) wedi'i gynnwys i liniaru pryderon ynghylch newidiadau i'r dirwedd hanesyddol.

Ceisiwyd arweiniad a chynghor ar gyfyngiadau lluosog a sensitifwydd ar y safleoedd gan arbenigwyr ymgynghorol priodol, a hynny ar y cyfle cyntaf. Roedd hyn yn galluogi dylunio'r cynigion mewn ffordd sensitif a allai osgoi effeithiau andwyol ar anghenion eraill y tir a'r dirwedd.

Elfen allweddol o lwyddiant y pedwar cynllun sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r cynllun plannu coetir tirwedd hwn, yw'r cydweithrediad cynnar a pharhaus rhwng yr ymgeisydd, rhanddeiliaid a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol a chytbwys i bawb, ac mae wedi creu pedwar cynllun llwyddiannus sy'n cwrdd â gofynion diwylliannol, hanesyddol, tirwedd a bioamrywiaeth yn achos tirwedd sy'n denu sylw eang.

Astudiaeth Achos

Adfer Coetir ym Mharc Cenedlaethol Eryri

Mae gwaith ar y gweill i adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS) ac i gael gwared â choed llarwydd sydd mewn perygl o'u heintio gan *Phytophthora ramorum* mewn coedwig fawr ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Cynhelir y gwaith o adfer PAWS a rhai nad ydynt yn PAWS dan 5^{ed} Rownd Adfer Coetiroedd Glastir yn rhan ddeheuol y goedwig, sy'n cynnwys ardaloedd o fewn SoDdGA a ddynodwyd oherwydd y coetir derw digoes Gorllewinol a geir yno.

Cafwyd caniatâd i weithio mewn a gerllaw safleoedd dynodedig ynghyd â thrwydded torri coed amodol er mwyn torri i lawr goed llarwydd Siapaneaidd a sbrws Sitka gyda mân gydrannau o binwydd y Gorllewin a phinwydd Camfrig. Cwblhawyd cynllun rheoli sy'n cydymffurfio â UKFS, ac roedd hwn yn cynnwys 26 hectar o ailstocio, gyda 4.4 hectar a gofnodwyd fel PAWS ar AWI 2011.

Yn unol ag amcanion Coetiroedd Glastir i ddarparu buddion amgylcheddol, roedd y cynllun rheoli yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Ailstrwythuro stondinau conwydd er mwyn cynyddu amrywiaeth a gwydnwch.
- Adfer ardaloedd cadwraeth, tirwedd ac amwynder gwerthfawr iawn
- Cynhyrchu pren
- Gwarchod nodweddion o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol
- Rheoli'r coetir yn unol â Safon Goedwig y DU a Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig



Roedd adfer PAWS dan y 5^{ed} Rownd yn gofyn am arolwg PAWS er mwyn canfod y meini prawf datblygu ecolegol.

Tybiwyd bod dwy adran yn cynnwys PAWS yn meddu ar Botensial Ecolegol Uchel a byddant yn cael eu hailstocio hyd 100% â choed llydanddail brodorol dan yr opsiwn Gwaith Cyfalaf 631. Aseswyd y trydydd safle fel un sy'n meddu ar Botensial Ecolegol Canolig. Er y caiff y fan hon ei hailstocio hyd 100% â choed llydanddail sy'n frodorol i'r safle, bydd yn cael ei hadfer yn rhannol gydag isafswm o 50% o goed llydanddail brodorol gaiff eu lleoli er mwyn clustogi manau presennol problemus lle ceir gweddillion coed lled-naturiol, adfywio, llwyni a fflora.

Bydd yr 21 hectar sy'n weddill, nad ydynt yn rhai PAWS yn cael eu hailstocio dan opsiwn Gwaith Cyfalaf 619 gyda chymysgedd o rywogaethau coniferaidd sy'n gynhyrchiol yn fasnachol a choed llydanddail sy'n frodorol i'r safle. Hefyd, asesodd y cynllun Adfer Coetiroedd Glastir fygythiadau i adfer





Glastir



PAWS. Y bygythiad mwyaf arwyddocaol oedd Rhododendron ac felly roedd y cynllun yn cynnwys 2.59 hectar o reoli rhododendron dan opsiwn Gwaith Cyfalaf 663.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government